



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Hydref 2019 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 October 2019 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Shan Williams (*yn y gadair/in the chair*),
John Adams-Lewis, Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans, Richard Jones, Wyn Jones,
Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, a Mr Wynford Jones
(*clerc/clerk*).

- 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.** The Chair's Welcome and Personal Matters.
Croesawodd y Maer, y Cyng. Shan Williams, bawb i'r cyfarfod. Cydymdeimlodd gyda theulu Marcus Heighton a gollodd ei fywyd yn ddiweddar mewn damwain beic modur.

The Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed everyone to the meeting. Cllr Williams offered the council's condolences to the family of Marcus Heighton who lost his life in a motor cycle accident recently.

- 2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllr Debra Griffiths

- 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.**
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Medi.**

Confirmation of Minutes of 3 September Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod cofnodion cyfarfod 3 Medi yn gywir.

Cllr John Adams-Lewis proposed that the 3 September council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Elaine Evans.

- 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

Tud. 1531, eitem 11 [111]: Cynhelir y seremoni i ddadorchuddio'r plac ddydd Sadwrn, 12 Hydref ger y Senotaff.

Page 1531, item 11 [111]: The ceremony to unveil the plaque will take place on Saturday, 12 October at the Cenotaph.

- 6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

- 7. Cynllunio / Planning:**

Ni dderbyniwyd ceisiadau cynllunio i'w trafod. No planning applications received.

- 8. Materion ariannol / Financial matters.**

(a) **Biliau a dalwyd / Bills paid.**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/9/19	Siemens: Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier	A7	D/D	£150.00 (25.00)
17/9/19	Post Office: Stampiau / Stamps	A8	4784	£78.96 (0.00)
1/10/19	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Medi / September). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room	A9	D/D	£250.00 (0.00)

	<i>Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings</i> (3 & 16 & 17/9/19)	A9	4785	£75.00 (0.00)
	<i>Band Lydan (Hydref) / Broadband (October)</i>	A20	4785	£20.00 (0.00)
1/10/19	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary</i> (<i>Medi / September</i>)	A5	4786	£763.19 (0.00)
13/9/19	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd /</i> Simultaneous translation (3/9/19)	A18	4787	£85.80 (0.00)
19/9/19	BT: <i>Ffôn / Telephone</i>	A20	4788	£84.17 (14.03)
5/9/19	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Cyfraniad o 20% tuag at y Maes Sgrialu.</i> 20% contribution towards the Skateboard Park (part of RCDF Play and Recreation in Rural Ceredigion 81338)	C5	4789	£10,400.00 (0.00)
5/9/19	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Deddf Hapchwarae 2005 / Gambling Act 2005</i> (Small Society Lottery: licence 854/1984)	A22	4790	£20.00 (0.00)
12/9/19	Midshire: <i>Llungopio / Photocopying</i>	A7	4791	£101.29 (16.88)
31/8/19	CCF: Compost "Miracle Gro"	C1	4792	£15.60 (2.50)
30/9/19	<i>Bachan Deche / Handyperson (Medi / September)</i>	A19	4793	£521.40 (86.90)
1/10/19	HMRC: PAYE £571.80, Class 1 NIC £97.20 <i>Gorffennaf, Awst, Medi / July, August, September</i>)	A16	4794	£571.80 (IT) + £97.20 (NIC) = £669.00 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones.

Cllr Clive Davies proposed that the bills be paid; this was seconded by Cllr Richard Jones.

Derbyniadau/Receipts:

9/8/19 Lloyds Bank: *Llog / Interest* £1.51

(b) Adroddiad Ariannol Chwarterol y Cyngor, 31/3/19–30/9/19.

Council's Quarterly Financial Report, 31/3/19–30/9/19.

Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

Cymeradwywyd bod y cyngor yn derbyn yr Adroddiad Ariannol: Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies; eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill.

Council approved the Financial Report: proposed by Cllr Clive Davies; seconded by Cllr Yvonne O'Neill.

(c) Cadarnhau dyddiad archwiliad ariannol mewnol gan gynghorwyr.

Confirmation of date of internal financial paper trail by councillors.

Oherwydd ymddiswyddiad y Cyng. Marilyn Farmer o'r cyngor (gweler Gohebiaeth [161]), mae angen enwebu aelod i archwilio'r cyfrifon gyda'r Cyng. Shan Williams. Enwebwyd y Cyng. Siân Maehrlein i gydweithio gyda'r Cyng. Shan Williams.

Due to Cllr Marilyn Farmer's resignation from the council (see Correspondence [161]), a member is to be nominated to audit the accounts with Cllr Shan Williams.

Cllr Siân Maehrlein was nominated to audit the paper work with Cllr Shan Williams.

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Awgrymwyd gan y Cyng. Miles y dylai gwregys newydd sydd i'w gosod ar gei Tywysog Siarl gael y geiriau canlynol gerllaw: "Colli hon, colli bywyd". Cytunwyd bod yr awgrym yn cael ei gynnis i gyfarfod nesaf Sianel Glir Afon Teifi gan gynrychiolydd y cyngor, y Cyng. Richard Jones.**
- (ii) **Mae bygythiad llifogydd yn ardal Gloster Row/Stryd y Santes Fair yma eto. Diolchodd y Cyng. Miles i Wylwyr y Glannau, yr Heddlu, Mrs Kathleen Martin a Mrs Jane Roche am eu gwyliadwriaeth o'r sefyllfa. Hir yw'r disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru weithredu i atal y broblem gynyddol yma; rhaid pwysu arnynt eto i weithredu. Mae'r llanw yn uchel heno (1 Hydref) – gobeithio y bydd y tywydd yn ffafriol. Ychwanegodd y Cyng. Yvonne O'Neill bod canolfan y Sgwotiaid yn ardal y Strand hefyd wedi gorlifo.**
- (iii) **Mae cyfarpar chwarae i blant tan anfantais wedi cyrraedd man chwarae Pentop. Mae angen i aelodau ward Teifi benderfynu gyda chydweithrediad y Bachan Deche yr union fan i'w gosod.**

(b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Mae'r trefniadau cyffrous i lwyfannu'r wyl "Lleisiau" yn mynd yn eu blaen yn hwylus.
- (ii) Mae sylwadau wedi eu gwneud gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â datblygiad yng ngardd tŷ yng Ngerddi Napier. Mae dwy garej wedi eu haddasu i greu preswylfod; cwestiynnir a oes cais cynllunio wedi ei baratoi.
- (iii) Gofynnwyd i'r Cyng. Evans wneud ymholiadau ynglŷn â'r goleuadau rheoli trafndiaeth sydd ym Manorafon.

(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Ategwyd sylwadau'r Cyng. Miles ynglŷn â'r llyfogydd gan y Cyng. Adams-Lewis. Diolchodd i weithwyr y cyngor sir am eu gwaith yn clirio'r draeniau ar y nos Sadwrn pan oedd y bygythiad yn amlwg. Mae angen i Gyfoeth Naturiol Cymru glirio'r coed a'r brigau o nant y Mwldan ger Theatr Mwldan.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles suggested that the following wording be posted near the new life-bouy at Prince Charles quay: "A stolen life-buoy, a stolen life". Cllr Richard Jones was requested to take this recommendation to the next meeting of Afon Teifi Fairways Committee.
- (ii) The threat of flooding at Gloster Row/ St Mary Street continues. Cllr Miles thanked the Coast Guards, the Police, Mrs Kathleen Martin and Mrs Jane Roche for their vigilance and co-operation. The long -awaited plans of Natural Resources Wales to create a flood alleviation scheme continues; additional pressure is required on the body. The tide is high again this evening (1 October) – the weather at the moment seems favourable. Cllr Yvonne O'Neill added that the Scouts hut in the Strand had also been flooded.
- (iii) The new equipment for a disabled child has been delivered to the Pentop play area. Members of Teifi ward are requested to confer with the Handyperson for placing the article in the preferred position.

(b) Cllr Elaine Evans:

- (i) The arrangements for the exciting "Other Voices" festival are continuing successfully.
- (ii) Observations have been received from members of the public regarding the development to the rear of a property in Napier Gardens where two garages have been converted to living accommodation. The notification of planning consent was questioned.
- (iii) Cllr Evans was requested to obtain information regarding the traffic lights near Manorafon where no sign of action is seen.

(c) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The observations given by Cllr Miles were reiterated by Cllr Adams-Lewis. He thanked the county council workers who cleared the drains on the Saturday evening when severe weather was forecast. Natural Resources Wales are to be informed of the trees and branches impeding the flow of the Mwldan stream near Theatr Mwldan.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
141	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Ffordd ar gau / Road closure: Ffordd y Gogledd / North Road Diwrnod Coffáu ac Ymgysegru / Commemoration and Dedication Day, 11:00-5:00pm, 12/10/19.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12 Medi Forwarded to all councillors on 12 September.</i>
142	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Ffordd ar gau / Road closure: Lôn y Farchnad / Market Lane. Strwythur anniogel / Unsafe structure, 27/9/19 – 1/10/10.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 15 Medi Forwarded to all councillors on 15 September.</i>
143	CSC / CCC (Alun Williams): <i>"Her y Gyllideb" / "Budget Challenge" – Complete the challenge on-line: http://www.ceredigion.gov.uk/Budget-Challenge</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12 Medi Forwarded to all councillors on 12 September.</i>
144	CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Gwybodaeth am gasglu gwastraff / Information regarding the new system for waste collection in Cardigan.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12 Medi Forwarded to all councillors on 12 September.</i>

145	CSC / CCC (Elin Prysor): <i>Cytundeb y Maes Sgrialu wedi ei arwyddo a'i ddychwelyd.</i> The Play Equipment Maintenance Agreement duly signed and returned for safe keeping.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 24 Medi</i> Forwarded to all councillors on 24 September.
146	CSC / CCC (Jon Hadlow): <i>Ymateb i gais y cyngor yn dilyn fandaliaeth yn Netpwl.</i> The response to the council's request following vandalism at Netpool	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 25 Medi</i> Forwarded to all councillors on 25 September. The Building Maintenance Officer, Dylan Jones, has visited the site to assess the damage. A local builder has been contacted for a quotation.
147	CSC / CCC (Alan Haird): <i>Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi (Cynllun Lle).</i> Meeting Notes of the 12 September meeting (Place Plans)	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 24 Medi</i> Forwarded to all councillors on 24 September.
148	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Ffurflen Prasept 2020-21.</i> Precept 2020-21 from.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
149	CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Gwasanaeth Casglu Gwastraff Newydd.</i> New Waste Collection Service, Route 121.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 1 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 1 October. <i>Bydd y gwasanaeth yn dechrau ar 28 Medi.</i> The service will commence on 28 September.
150	Mr Elfyn Morris, Dôl y Dintir: <i>Cais i ofyn i Ddŵr Cymru gymryd gofal o'r tir.</i> Application for Welsh Water to accept maintenance for the land.	<i>Cytunwyd anfon llythyr at Ddŵr Cymru yn gofyn iddynt dorri'r borfa.</i> It was agreed to write to Welsh Water requesting that they cut the grass above the holding tank.
151	Ms Lorraine Turnbull, Saddlers Arms: <i>Ymateb i gais y cyngor.</i> Response to the council's request to keep the exterior of the premises clean.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12 Medi</i> Forwarded to all councillors on 12 September.
152	<i>Comisiynydd Heddlu a Throsedd</i> Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r clerc i'r sesiwn "Tu Ôl i'r Llenni"</i> / Invitation to the Mayor and clerk to the session "Behind the Scenes", 8/10/19, 5:30pm	<i>Bydd y clerc a'r Cyng. Adams-Lewis yn mynychu'r sesiwn.</i> The clerk and Cllr Adams-Lewis will attend the session.
153	Moose International: <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu'r Caws a Gwin.</i> Invitation to the Mayor to attend the Cheese & Wine evening, 14/9/19, 7:00 ar gyfer 7:30yh.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has received the invitation.
154	<i>Canolfan Plant Jig-So</i> Children's Centre: <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu digwyddiad.</i> An invitation to the Mayor to attend a community lunch, 18/10/19, 11:45am.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has received the invitation.
155	Theatr Mwldan: <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu digwyddiad.</i> An invitation to the Mayor to attend an event regarding "Other Voices Cardigan". Date to be arranged.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has received the invitation.
156	Soroptimist International: <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu'r Cinio Elusennol Blynnyddol.</i> An invitation to the Mayor to attend the Annual Charity Lunch, at the Cliff Hotel, 13/10/19, 12:30 for 1:00pm.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has received the invitation.
157	<i>Gofal Mewn Galar: "Dathlu 60 mlynedd o Cruse".</i> Cruse Bereavement Care: "Celebrating 60 years of Cruse": <i>Gwasanaeth Coffa Eciwmenaid.</i> An Ecumenical Service of Commemoration, St Davids Cathedral, 20 October 2019, 6:00pm	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> <i>Poster has been displayed in notice board.</i>
158	<i>Pwyllgor Carnifal Aberteifi: Cais am gymorth ariannol.</i> Cardigan Carnival Committee: Application for financial aid.	<i>Mae'r cais wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> The application has been discussed at the Grants Sub-committee (17/9/19)
159	<i>Pwll Nofio Aberteifi: Cais am gymorth ariannol.</i> Cardigan Swimming Pool: Application for financial aid.	<i>Mae'r cais wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> The application has been discussed at the Grants Sub-committee (17/9/19)
160	<i>Ambiwylans Awyr Cymru i Blant: Cais am gymorth ariannol.</i> <i>Wales Air Ambulance for Children:</i> Application for financial aid.	<i>Mae'r cais wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> The application has been discussed at the Grants Sub-committee (17/9/19)
161	<i>Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer: Llythyr o ymddiswyddiad o'r cyngor.</i> A letter of resignation from the council.	<i>Cytunwyd danfon llythyr o ddiolch i Mrs Farmer am ei diddordeb a'i chyfraniad i'r cyngor.</i> It was agreed to forward a letter of gratitude to Mrs Farmer for her contribution to the council.

162	Grant Thornton (<i>Archwilydd Allanol / External Auditor</i>) <i>Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi anfon adroddiad archwiliad anghymwysedig ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi am gyfrifon 2018-19.</i> The Auditor General for Wales has issued Cardigan Town Council an unqualified audit report for the 2018-19 accounts.	<i>Tynnwyd sylw at y canlynol: <u>Cylch Gorchwyl:</u> Dylai'r cyngor sicrhau fod Cylch Gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor.</i> The following was noted: <u>Terms of Reference:</u> The Council should ensure that Terms of Reference are in place for each committee.
163	<i>Swyddfa Ystadegau Gwladol: Ymarfer y Cyfrifiad (13 Hydref).</i> Office for National Statistics: Census Rehearsal pamphlet (13 October)	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 1 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 1 October.
164	<i>Sioe Amaethyddol Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'i Chydweidd i'r Cinio Blynyddol.</i> Cardigan Agricultural Show: Invitation to the Mayor and Consort to the Annual Dinner at the Cliff Hotel, 16/11/19 at 7:30pm.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has received the invitation.
165	<i>Adroddiad y Bachan Deche (Medi)</i> Handyperson's Report (September)	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.
166	CSC / CCC (Cath Ranson): <i>E-bost yn cadarnhau derbyn sylwadau cyngor y dref ar yr Ymgynghoriad Strategaeth a Ffebrir ar 9/12/2019.</i> E-mail confirming receipt of the town council's observations regarding the Preferred Strategy Consultation on the 9/12/2019.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
167	Mr R. Rae, Tŷ Ger y Bedyddfa, Cwm Degwel, Llandudoch: <i>Copi o lythyr anfonwyd at y cyngor sir gyda chwyn am barcio ar ffordd Brecon Terrace a Tivy Terrace.</i> Copy of a letter sent to the county council requesting yellow lines at Brecon Terrace and Tivy Terrace.	<i>Nodwyd.</i> Noted.

Alan Haird:	<i>Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau / Project Management and Development Officer</i>
Alun Williams:	<i>Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad / Corporate Lead Officer – Policy and Performance</i>
Cath Ranson:	<i>Rheolwr y Gwasanaethau Cynllunio, Polisi ac Ymchwil / Planning Policy and Research Services Manager</i>
Elin Jones:	<i>Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer</i>
Elin Prysor:	<i>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu</i> Corporate Lead Officer: Legal Services and Governance
Jon Hadlow:	<i>Rheolwr Gerddi a Blodau / Grounds Maintenance Manager</i>
Mererid Jones:	<i>Ailgylchu / Recycling</i>
Stephen Johnson:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 17 Medi.
Confirmation of 17 September Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Richard Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones bod cofnodion 17 Medi (Is-bwyllgorau) yn gywir.

Cllr Richard Jones proposed that the 17 September minutes (Sub-committees) be recorded as correct; this was seconded by Cllr Wyn Jones.

Materion yn codi: Matters arising:

Tud. 1537 (Cyflwyniad "5G Rollout"): Cytunwyd bod y cyngor yn cysylltu gyda'r cyflwywyr pan ddaw rhagor o fanylion i'r amlwg.

Page 1537 (*Presentation "5G Rollout"*): It was agreed to contact the presenters when more information is available .

Tud. 1539 (Y Ddraig Goch): Cytunwyd bod y Cyngorwyr John Adams-Lewis, Clive Davies a Richard Jones yn cysylltu gyda Menter Aberteifi cyf. a'r adeiladydd ynglŷn â gosod y faner yn y safle cywir.

Page 1539 (*Red Dragon*): It was agreed that Councillors John Adams-Lewis, Clive Davies and Richard Jones confer with Menter Aberteifi Cyf. and the builder for the correct positioning of the flag.

Is-bwyllgor Chwaraeon a Hamdden: Yn dilyn y cyfarfod ar 30 Medi, daethpwyd i'r casgliad fel a ganlyn: Maes Sgrialu: Angen clo ar y bin; Maes Chwarae Brenin Siôr 5ed: angen gwaith cynnal a chadw ar y siglen a'r uned chwarae, gwaith ar y ddaear, angen tynhau bollten, ayyb.

Cytunwyd bod anghenion y maes chwarae yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Gyllideb ym mis Ionawr.

The Sports & Recreation Sub-Committee: As a result of the meeting on 30 September, the following was noted: Skateboard Park: lock for the bin; the King George 5th Playing Field children's area: multi-play unit and swings: wear in bushes, remove the shackle and check/replace; worn ground area; rocker daisy: bolt needs tightening; rocker horse: trip hazard tiles.

It was agreed that the requirements of the play area be discussed at the January Budget meeting.

Adroddiad y Bachan Deche: Cytrunwyd bod y Bachan Deche yn cysylltu gyda'r coedwigwr i docio'r coed ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed

Handyperson Report: It was agreed for the Handyperson to contact the tree surgeon regarding the pruning of the trees on the King George 5th Playing Field.

Menter Aberteifi Cyf.: Sylwyd bod cloc Neuadd y Dref yn ddiffygiol eto. Cytunodd y Cyng. Richard Jones wneud ymholiadau.

Menter Aberteifi Cyf.: It was observed that the Guildhall clock was again malfunctioning. Cllr Richard Jones agreed to make enquiries.

12. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145).

Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972).

1–Ambiwylans Awyr Cymru i Blant / Wales Air Ambulance for Children	£500
2–Oxygen Therapy Centre, Cardigan Ltd.	Nil
3–Canolfan i Blant Bobath Children's Therapy Centre	Nil
4–Age Cymru Ceredigion	£2,000
5–Friends of the Aberporth Centre for Children with Special Needs	Nil
6–Scouts: Tarian y Ddraig Explorer Scout Unit	£650
7–Castell Aberteifi / Cardigan Castle	£2,000
8–Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Swimming Pool	£2,000
9–Ceredigion WASPI	Nil
10–Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival (Category B1: Christmas lights)	£500

Datganiad diddordeb/Declaration of interest:

Rhif y cais/Application No. 7	Y Cyng. / Cllr Clive Davies
Rhif y cais/Application No. 10	Y Cyng. / Cllr Richard Jones
Rhif y cais/Application No. 10	Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein
Rhif y cais/Application No. 10	Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan
Rhif y cais/Application No. 6, 10	Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y cyfraniadau uchod yn cael eu talu.

It was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Elaine Evans that the above donations be paid.

13. Annibyniaeth i Gymru / Independence for Wales

Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd yn unfrydol bod Cyngor Tref Aberteifi yn cefnogi'r ymgyrch "Annibyniaeth i Gymru – YesCymru".

Cynigydd: y Cyng. John Adams Lewis; eilydd: y Cyng. Shan Williams.

Following a short discussion, it was unanimously agreed that Cardigan Town Council supports the campaign "Independence for Wales – YesCymru".

Proposer: Cllr John Adams-Lewis; seconder: Cllr Shan Williams.

14. Personél / Personnel.

Dosbarthwyd cofnodion yr Is-bwyllgor Personél gynhaliwyd ar 16 Medi i'r cyngorwyr ymlaen llaw. Trafodwyd penodi clerc a brysgyllwyr newydd i wasanaethu'r cyngor.

The minutes of the Personnel Sub-committee held on 16 September have been distributed to members. The appointment of a new clerk and new mace-bearers to serve the council was discussed.

Tud. 1536: Mae angen ychwanegu'r canlynol: "Bod ymgeiswyr i gyfieithu paragraff gosodedig o'r Saesneg i'r Gymraeg fel rhan o broses y cyfweiliad."

Page 1536: The following to be included: "Applicants, as a part-process of the interview, will be required to translate a set paragraph from English to Welsh".

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod cofnodion cyfarfod 16 Medi (Personél) yn gywir.

With the above amendment, Cllr John Adams-Lewis proposed that the 16 September minutes (Personnel) be recorded as correct; this was seconded by Cllr Clive Davies.

Gofynnwyd i'r clerc drefnu bod hysbysebion yn cael eu gosod ar y wefan a'r hysbysfwrdd a hefyd y canlynol: y wasg leol, papurau bro, Hysbysfwrdd Swyddi Cymru.

The clerk was requested to prepare adverts to be placed on the website and notice boards and the following: the local press, papurau bro (Welsh local newspapers), and the "Hysbysfwrdd Swyddi Cymru" website.

15. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

16. Unrhyw Fater Arall cofrestrwyd ymlaen llaw.

Any Other Business recorded in advance.

(a) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

(i) **Niwed i fur tu ôl i dafarn y Castell.**

Yn dilyn y fandaliaeth o losgi cuddfan adar yn y Parc Natur, gofidiwyd bod mellith y person/au yn dramgwydd i'n hardal. Awgrymwyd bod angen defnyddio systemau technegol i warchod ein mannau cyhoeddus.

Damage to the wall to the rear of the Castle pub.

Following a further arson attack on the heron hide at the Wildlife Park, concerns were raised that an arsonist might be responsible for such action. It was suggested that technical systems be introduced to prevent future attacks.

(ii) **Ffair Aberteifi (9 Tachwedd): Mae trefniadau ar y gweill i gynnig stondinau i grefftwyr lleol o flaen Neuadd y Dref eleni eto. Mae anfonebau am £22 yr un wedi eu paratoi i ddeg o stondinwyr.**

Cardigan Fair (9 November): Arrangements are in place to offer stalls to local craftspeople again this year. Invoices of £22 each have been prepared for 10 stallholders. Litterpickers will erect and dismantle the stalls for £120.

(iii) **Aberteifi ddi-blastig. Mae canolfan wedi ei sefydlu yn Stiwdio 3 gyda chymorth Cyngor Sir Ceredigion a mudiad Cadw Cymru'n Daclus. Mae angen parhau'r ymgyrch gyda'r masnachwyr ac i annog y cyhoedd i ymuno. Trefnir ymgyrchoedd codi swbriel yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Y bwriad yw sefydlu statws tref ddi-blastig i Aberteifi.**

Plastic-free Cardigan. Litter hub established at Stiwdio 3 with assistance from Ceredigion County Council and Keep Wales Tidy. Continue the campaign with traders and encourage public involvement. Litter picks to be arranged throughout the autumn and winter. The process to achieve a plastic-free status for Cardigan.

(b) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**

(i) **Casglu gwastraff yn ystod oriau ysgol (9:00yb).**

Cytunwyd ysgrifennu at y cyngor sir yn gofyn iddynt ystyried newid y cylchdaith o amgylch Stryd Napier fel bod rhieni yn osgoi'r lori sbwriel ar eu taith i'r ysgol yn y bore.

Waste collection during school time (9:00am).

It was agreed to request the county council to consider re-routing the rubbish vehicle in the morning at the Napier Street junction to enable parents to avoid the congestion caused by the lorry as they proceed to school.

- (c) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:**
- (i) **Rheiliau i Fynwent y Dref.**
Cytunwyd ysgrifennu at y cyngor sir yn gofyn iddynt ystyried gosod rheiliau ger y grisiau o'r hen fynwent i'r fynwent newydd.
 Handrails for Cardigan Cemetery.
 It was agreed to request the county council to place handrails alongside the steps leading from the old cemetery to the new lawn cemetery.
- (d) **Y Cyng. / Cllr Elaine Evans:**
- (i) **Costau parcio ym meysydd parcio'r dref.**
 Parking fees in Cardigan car parks.
- (e) **Y Clerc / The Clerk**
- (i) **Mae'r clerch yn dymuno cofrestru bod y siec (Rhif 4739: £363.54) a aeth ar goll yn y post ym mis Mai i Jaydee Living Ltd wedi ei darganfod ac wedi ei dychwelyd. Roedd wedi ei diddymu yn gynharach.**
 The clerk wishes it to be recorded that the cheque (No. 4739: £363.54) lost in the post since May has been received and returned by Jaydee Living Ltd. It had previously been cancelled.
- (ii) **Sul y Cadoediad: Oherwydd absenoldeb Mr John Jones a Band y Dref o'r seremoni eleni, gofynnwyd i Ms Rhian Medi, arweinydd Côr y Clwb Rygbi, i gynorthwyo gyda'r gerddoriaeth. Mae Rhian wedi ymateb yn ffafriol i'r cais; bydd yn cyfeilio'r emynau a'r anthemau ar fysellfwrdd. Bydd angen trefnu bod cerddoriaeth yn cael ei chwarae cyn dechrau'r seremoni ac yn ystod seremoni gosod y plethdorchau.**
Cytunodd y Cynghorwyr Steffan Morgan a Wyn Jones gynorthwyo gyda'r ochr dechnegol i osod system sain.
Remembrance Sunday: As Mr John Jones and the Town band are unable to be present this year, the clerk has requested Ms Rhian Medi, the Cardigan Rugby Club conductor, for assistance; Rhian has responded favourably to the request and will accompany the singing of the hymns and anthems on the keyboard. The usual ceremonial music at the commencement and the laying of the wreaths is to be arranged.
 Councillors Steffan Morgan and Wyn Jones agreed to assist with the technicalities of placing a sound system in place for the service.
- (f) **Y Cyng. / Cllr Shan Williams:**
- (i) **Mae trefniadau ar y gweill i drefnu cyfarfod ynglŷn â safle yr hen ysbyty ar 2 Hydref am 5:30yh yn swyddfa 4CG.**
 A short meeting will be held at the 4CG office at 5:30pm to discuss the site of the old hospital.
- (g) **Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis:**
- (i) **Gofynnodd y Cyng. Adams-Lewis i aelodau ddilyn y canllawiau a argraffwyd yn y "Rheolau Sefydlog" (tudalen 11, rhif 28): "...clogwyni'r cyngor sydd i'w gwisgo ar ddigwyddiadau dinesig yn unig."**
 Cllr Adams-Lewis requested members to observe the directive as printed in the "Standing Orders" (page 11, no. 28): "The mayoral robes to be worn only on civic duties".

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.00pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date